Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaethau Cyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **31 Ionawr 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Teitl yr OS**
Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaethau Cyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

**Trosolwg ar yr OS o ran Polisi**
Mae'r OS yn ei gwneud yn bosibl parhau i gynnal rhaglenni'r cronfeydd strwythurol pe bai'r DU yn ymadael heb gytundeb. Mae'n creu'r darpariaethau sydd eu hangen i sicrhau bod prosiectau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a ddechreuodd cyn yr ymadawiad yn gallu parhau i weithredu o dan fframwaith domestig sy'n adlewyrchu'r strwythurau a oedd yn bodoli cyn ymadael, gan ganiatáu i daliadau gael eu gwneud i'r buddiolwyr perthnasol. Mae'n sicrhau hefyd y bydd yr holl brosiectau a ddechreuodd cyn yr ymadawiad yn parhau i gydymffurfio â Rheoliadau'r UE, gan liniaru'r risg o beidio â chydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau a allai ddal i fodoli.

Mae'r OS yn creu'r pwerau talu angenrheidiol fel y gall holl Weinyddiaethau Datganoledig weinyddu Gwarant Trysorlys y DU ar gyfer Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC).

Mae'r OS hefyd yn diogelu pwerau Gweinidogion Cymru a dynodiad WEFO fel Awdurdod Rheoli ac Ardystio, a Llywodraeth Cymru fel Awdurdod Archwilio, ar gyfer y cronfeydd strwythurol.

**Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio**
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1303/ 2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor, 17 Rhagfyr 2013
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 240/ 2014, 7 Ionawr 2014
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 480/ 2014, 3 Mawrth 2014
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2015/616, 13 Chwefror 2015
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2015/1076, 28 Ebrill 2015
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2015/1516, 10 Mehefin 2015

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2015/ 1970, 8 Gorffennaf 2015
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2016/ 568, 29 Ionawr 2016
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 184/ 2014, 25 Chwefror 2014
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 288/ 2014, 25 Chwefror 2014
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 215/ 2014, 7 Mawrth 2014
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 1011/ 2014, 22 Medi 2014
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 1232/ 2014, 18 Tachwedd 2014
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/ 207, 20 Ionawr 2015
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/ 1974, 8 Gorffennaf 2015
- 2014/190/EU: Rheoliad Penderfynu'r Comisiwn, 3 Ebrill 2014
- 2014/660/EU: Rheoliad Penderfynu'r Comisiwn, 11 Medi 2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1299/2 013 Senedd Ewrop a'r Cyngor, 17 Rhagfyr 2013
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1301/ 2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor, 17 Rhagfyr 2013
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1302/ 2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor, 17 Rhagfyr 2013
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 481/ 2014, 4 Mawrth 2014
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 522/ 2014, 11 Mawrth 2014
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2015/ 2195, 9 Gorffennaf 2015
- 2014/266/UE: Rheoliad Penderfynu'r Comisiwn, 16 Mehefin 2014
- 2014/805/UE: Rheoliad Penderfynu'r Comisiwn, 17 Tachwedd 2014
- 2014/388/UE: Rheoliad Penderfynu'r Comisiwn, 16 Mehefin 2014

**Diben y diwygiadau**
Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â'r rheoliadau (rhai cyffredin a rhai'n ymwneud yn benodol â chronfeydd) sy'n llywodraethu Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Gronfa Cydlyniant.

Bwriad yr OS yw:

- Diddymu'r rheoliadau yn ymwneud â'r Cronfeydd Strwythurol a restrir yn Atodlen 1 ac Atodlen 2 i'r Rheoliadau, naill ai'n gyfan neu'n rhannol, gan y byddant yn anweithredadwy ar y diwrnod ymadael
- Diogelu a chadw pob cyfeiriad at reoliadau'r Cronfeydd Strwythurol yn y cynigion ariannu presennol, fel bod y rheoliadau'n parhau'n gymwys i'r rhwymedigaethau goroesadwy a grëir ar ôl yr ymadawiad â'r UE.
- Ar gyfer Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, creu'r pwerau talu angenrheidiol i Ysgrifennydd Gwladol neu Awdurdod Datganoledig allu talu i fuddiolwyr neu Awdurdodau Rheoli sy'n cymryd rhan mewn Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, neu'r Comisiwn Ewropeaidd, y cyllid priodol o'r gwarant.

Mae'r OS a'r Memorandwm Cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob diwygiad, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/OY5198LA

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedldaethol Cymru.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.